

Blaenoriaethau a'r Amcanion ar gyfer Coedwig Dyfi

- Cynyddu amrywiaeth y rhywogaethau coed yn y goedwig sy'n cael ei ddominyddu'n bennaf gan sbriws ar hyn o bryd, er mwyn cynyddu gwydnwch i blâu a chlefydau wrth wella gwydnwch i newid yn yr hinsawdd.
- Edrych ar yr holl gyfleoedd i gynyddu amrywiaeth strwythurol o fewn clystyrau gan ddefnyddio amrywiaeth o Systemau Coedamaeth Bach eu Heffaith lle bo'n briodol. Bydd y math o system coedamaeth yn cael ei gyfyngu mewn ardaloedd mawr oherwydd tir serth, diffyg teneuo blaenorol a datguddiad ar y tir uchaf.
- Cynyddu teneuo, gan sicrhau bod teneuo cyntaf yn cael ei wneud ar amser ac yn aml ar ôl hynny. Bydd hyn yn gwella cydnerthedd ecolegol ac yn cynyddu opsiynau ar gyfer rheolaeth yn y dyfodol gan gynnwys y defnydd posibl o Systemau Coedamaeth Bach eu Heffaith.
- Gwella amrywiaeth oedran trwy raglenni llwyrgwmpo a fydd yn parhau i sicrhau'r amrywiaeth fwyaf o ran oedran o fewn dalgylchoedd ac ar draws ardal ehangach y goedwig.
- Creu ecosystem a strwythur coedwig parhaol ac amrywiol sy'n cynnwys coetir ar lannau afon a choetir brodorol, gwarchodfeydd naturiol, dargadwedd hirdymor, coetir dilyniadol a chlytwaith o gynefinoedd agored, gan gynnwys ffyrdd coedwig a rhodfeydd. Caniatáu am amrywiaeth o drefniadau rheoli coetir lle mae prosesau naturiol yn unig yn digwydd. Bydd hyn nid yn unig o fudd i strwythur y goedwig ond bydd hefyd yn darparu cynefin parhaol pwysig ar gyfer amrywiaeth o ffawna a fflora fel safleoedd nythu Gweilch Marthin a chynefinoedd cen.
- Cynyddu'r defnydd o aildyfiant naturiol wrth sefydlu cnydau newydd lle bo'n briodol, yn enwedig rhywogaethau llydanddail brodorol ond hefyd coed conwydd ar safleoedd Systemau Coedamaeth Bach eu Heffaith.
- Parhau i fod yn goedwig gynhyrchiol iawn o ran cynhyrchu pren, gan ddefnyddio'r amrywiaeth fwyaf bosibl o rywogaethau coed a fydd yn ffynnu nawr ac yn y dyfodol yn unol â rhagfynegiadau'r newid yn yr hinsawdd a dylid parhau i gynnal cyflenwad cynaliadwy rheolaidd o gynhyrchion pren o ansawdd.
- Parhau i ymchwilio i'r potensial am brosiectau ynni adnewyddadwy o fewn ardal y goedwig, sy'n cynnwys cymorth parhaus ar gyfer cynlluniau hydro ym Mhantperthog .
- Edrych am gyfleoedd ar gyfer cefnogi busnesau lleol i farchnata pren yn lleol a chreu mwy o swyddi yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol yn y sector cynhyrchu pren neu mewn gweithgareddau/busnesau eraill sy'n

ymwneud â gweithgareddau yn y goedwig.

- Buddsoddi mewn seilwaith parhaol o ffyrdd a thraciau i ddatblygu mynediad i ardaloedd lle nad yw'n bodoli ac i helpu i ddatblygu seilwaith mewnol ar gyfer safleoedd Systemau Coedamaeth Bach eu Heffaith yn y dyfodol er mwyn sicrhau rheolaeth hirdymor o'r goedwig gyfan.
- Defnyddio'r cyrsiau dŵr, cynefinoedd coetir brodorol presennol, cynefinoedd agored yr ucheldir fel sail i strwythur coedwig parhaol, gan greu rhwydweithiau cynefinoedd mwy o faint gyda chysylltiadau gwell â choetir hynafol, megis safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig Coed Maes Mawr. Hefyd cysylltu cynefinoedd agored megis Fron Felen â'r cynefin rhostir uwchben y goedwig. Bydd y rhwydwaith cysylltiedig hwn o goetir torlannol a choetir brodorol yn gwella ansawdd dŵr ac yn gwella bioamrywiaeth.
- Amddiffyn a gwella amgylchiadau microhinsawdd ar gyfer cennau yng Nghwm Glesyrch, Cwm Ceirig a Chwm Llecoediog. Dylai'r gwaith o reoli a blaenoriaethu ardaloedd ar gyfer cynefin cennau gael ei gysylltu â'r gwelliannau mewn coetir torlannol hynafol a choetir brodorol newydd.
- Datblygu rhaglen wedi'i blaenoriaethu ar gyfer gwaredu ar rywogaethau anffrodorol goresgynnol o barthau torlannol, cynefinoedd coetir brodorol a'r holl rannu eraill o Goedwig Dyfi.
- Blaenoriaethu gwaith brys i gael gwared ar sbriwsen-hemlog y Gorllewin aeddfed trwy raglenni llwyrgwympo. Mae'n rhaid i'r gwaith o gael gwared ar goed ifanc sbriwsen-hemlog y Gorllewin hefyd fod yn rhan o waith gwella torlannol a rhaglenni paratoi, glanhau ac ail-leoli safleoedd ailstocio.
- Gwarchod a gwella cyflwr a nodweddion ecolegol y Coetir Hynafol a Lled-Naturiol. Gwella cyflwr yr holl Blanhigfeydd ar Safleoedd Coetir Hynafol gyda chysylltiadau rhwng coetir hynafol, coetir brodorol presennol a newydd er mwyn gwella rhwydweithiau cynefinoedd.
- Gwarchod a gwella cyflwr safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig Coed Maes Mawr, gwella cysylltiad â chynefinoedd coetir brodorol ehangach o fewn Coedwig Dyfi a'r ardal o'i chwmpas.
- Creu cynllun perthnasol i amddiffyn a rheoli ardal gadwraeth arbennig / safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig cynefin rhostir Cadair Idris sy'n cynnwys cael gwared ar goed conwydd wedi'u plannu o fewn yr ardal gadwraeth arbennig / safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig, creu cynefin coetir brodorol ucheldir, lle agored newydd sy'n gysylltiedig ag adfer mawn dwfn a gwaredu ar rywogaethau anffrodorol o'r ardaloedd dynodedig rhwng coedwig a rhostir.
- Creu neu wella lle agored mewn ardaloedd eraill sydd wedi'u nodi'n ddiweddar ar gyfer adfer mawn dwfn, o bosibl yn cysylltu â chynefin

ucheldir agored ac ardal gadwraeth arbennig Cadair Idris.

- Cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer cynefin pren marw trwy nodi coed sy'n cael eu cadw yn yr hirdymor, gwarchodfeydd naturiol a newid arferion gweithredol. Mae gadael pren marw yn ei le yn cefnogi biota amrywiol yn ecosystem y goedwig.
- Gwella cynefinoedd ar gyfer yr amrediad o ffawna sydd yng Nghoedwig Dyfi ar hyn o bryd. Mae hyn yn cynnwys dyfrgwn, beleod sydd wedi'u cyflwyno'n ddiweddar, gweilch Marthin ac ystumod. Mae Coedwig Dyfi yn adnabyddus yn benodol am ei phoblogaeth o bathewod, felly dylai gweithgareddau rheoli geisio gwella ac ehangu'r cynefin pathewod.
- Lleihau'r potensial ar gyfer perygl llifogydd gan wella cynefin torlannol, cynnal gorchudd coetir ac ehangu'r ardal goetir brodorol. Trwy reoli maint y llwyrgwmpïadau mewn dalgylchoedd a theneuo cnydau wrth wneud y defnydd gorau o Systemau Coedamaeth Bach eu Heffaith, bydd hyn yn lleihau'r effaith ar lif dŵr brig a hefyd llwythi critigol mewn dalgylchoedd sy'n sensitif i asid.
- Lleihau effeithiau niweidiol posibl asideiddio trwy gynnal ansawdd dŵr da a gwell trwy gynnefin torlannol a chysylltiadau gwell, ardal fwy o goetir brodorol a rhwydweithiau cynefinoedd gwell yn seiliedig ar y seilwaith torlannol.
- Gwella amrywiaeth weladwy'r goedwig trwy gynyddu'r amrywiaeth strwythurol ac amrywiaeth y rhywogaethau o fewn clystyrau a rhyngddynt a mwy o goetir brodorol a chynefinoedd torlannol.
- Amddiffyn a gwella'r nifer o nodweddion hanesyddol pwysig sy'n cynnwys chwareli llechi segur, hen ffermydd, a ffensys crawiau (llechi), naill ai gyda man agored neu ehangu coetir brodorol. Eu cysylltu â llwybrau hamdd neu rwydweithiau cynefinoedd eraill lle bo hynny'n bosibl.
- Cynnal cyfleusterau hamdden presennol i safon uchel a sicrhau bod cyfleoedd hamdden perthnasol yn cael eu datblygu yn y goedwig.
- Cynnal hawliau tramwy cyhoeddus a sicrhau eu bod yn cael eu hystyried yn ystod gweithgareddau gweithredol a bod unrhyw rwystrau yn cael eu hadfer yn ôl yr angen.
- Cynnal a gwella cysylltiadau presennol â chymunedau lleol i sicrhau bod lefelau presennol o fynediad a defnydd yn unol ag anghenion lleol ynghyd â gweithgareddau eraill megis raliâu modur, rasys dal ati a digwyddiadau ceffylau.
- Amddiffyn a gwella mynediad ar hyd y llwybrau cerdded sy'n cysylltu â

Ilwybr pellter hir Tarren Hendre sy'n rhedeg o Gorris i Dywyn, gyda chysylltiadau o Abergynolwyn, Pennal, Corris a Dolgoch.